

Roedd **Brychan** yn casáu amser bath.



Roedd **Brychan** yn casáu teimlad y **dŵr twym**, y **swigod**, y **siampŵ**, a'r **teganau dŵr amryliw**.

Roedd yn well gan **Brychan** fynd i'r ysgol yn frwnt ac yn arogli fel **baw** yn hytrach na chael bath bob nos!

Fel arfer byddai **Brychan** yn mynd i guddio pan fyddai'n amser bath.

Ond, yn anffodus, byddai Dad **Brychan** yn llwyddo i'w ffeindio bob tro.



Un tro, cuddiodd **Brychan** tu ôl llenni'r ystafell fyw.

Tro arall, cuddiodd **Brychan** o dan ei wely.

A'r tro diwethaf, cuddiodd **Brychan** o dan fwrdd y gegin.

Heno, roedd amser bath wedi cyrraedd unwaith eto ac roedd **Brychan** yn barod i fynd i guddio.

**"Mae'n amser bath, Brychan!"** gweiddodd Dad **Brychan** o'r ystafell ymolchi.

Rhedodd **Brychan** i guddio yn y cwt o dan y staer.

Clywodd **Brychan** ei Dad yn gweiddi eto, **"Mae'n amser bath, Brychan!"**

Ond roedd **Brychan** wedi swatio'n glud yn y cwt o dan y staer ac nid oedd **Brychan** am symud o gwbl.

Roedd yn well gan **Brychan** eistedd yn y tywyllwch ymysg yr **esgidiau** a **chotiau** na chael bath arall!



Clywodd **Brychan** ei Dad yn cerdded heibio'r cwt o dan y staer gan weddi unwaith eto,

**"Mae'n amser bath, Brychan!"**

Ond tro yma, roedd Dad **Brychan** yn cael trafferth fawr i'w ffeindio.

Dechreuodd **Brychan** freuddwydio mai heno byddai'r noson byddai'n gallu mynd heb amser bath.

Y tro cyntaf ers blynyddoedd!

Dechreuodd **Brychan** fwynhau edrych trwy gasgliad anferthol y teulu o **esgidiau**. Esgidiau **glaw**, esgidiau **cerdded**, esgidiau **pert**, ac esgidiau **llawn tyllau**.

Yn sydyn, gwelodd **Brychan** fflach **borffor**. Trodd i weld beth oedd achos y lliw llachar.

Cropiodd **Brychan** yn agosach at y lliw. Stopiodd yn stond.

Roedd yna anifail bach gyda blew hir **porffor** yn eistedd yng nghornel y cwt o dan y staer.



**“Beth wyt ti’n ei wneud yma?”** holodd yr anifail bach gyda blew hir **porffor**.

**“Cuddio rhag fy nhad,”** eglurodd **Brychan**, **“beth wyt ti’n ei wneud yma?”** holodd **Brychan** yn ôl i’r anifail bach gyda blew hir **porffor**.

**“Dyma fy nghartref. Rydw i, Caradog Crannog Cian Cai Cadwaladr, yn gyfrifol am gadw’r cwt o dan y staer yn daclus,”** eglurodd yr anifail bach gyda blew hir **porffor**.

**“O,”** oedd ateb syml **Brychan** cyn iddo holi, **“iawn i fi dy alw’n Caradog? Fy enw i yw Brychan.”**



Ysgwydodd y ddau ohonynt eu dwylo gan ddechrau cyfeillgarwch unigryw iawn.

**“Felly pam wyt ti’n cuddio rhag dy Dad?”** holodd **Caradog** wrth **Brychan**.

**“Achos dydw i ddim eisiau cael bath,”** atebodd **Brychan**.

Roedd **Caradog** yr anifail bach gyda blew hir porffor methu credu'i glustiau. Roedd **Caradog** wrth ei fodd yn cael bath, er nad oedd e wedi cael bath ers sawl blwyddyn bellach.

Un o freuddwydion **Caradog** oedd cael bath unwaith eto.

Edrychodd **Caradog** ar **Brychan** gyda'i lygaid mawr crwn yn y gobaith byddai **Brychan** yn cynnig ei fath e iddo.

Ar ôl eiliad o aros, holodd **Brychan** **"Hoffet ti gymryd fy math i yn lle?"**

Nodiodd **Caradog** ei ben yn frwd gan ruthro heibio **Brychan**, allan trwy ddrws y cwtsh o dan y staer ac i fyny'r grisiau.

Rhedodd **Brychan** ar ei ôl. Erbyn i **Brychan** gyrraedd yr ystafell ymolchi roedd **Caradog** wedi neidio i mewn i'r bath ac yn taflu swigod ym mhob man.

Edrychodd **Brychan** ar **Caradog** yn cael yr holl hwyl a sbri.

Roedd **Brychan** yn dechrau troi'n genfigennus o'r holl hwyl.

Yn sydyn, neidiodd **Brychan** i mewn i'r bath yn gwisgo'i dillad ysgol o hyd. Doedd dim amser i'w wastraffu i dynnu dillad – roedd **Brychan** eisiau ymuno yn yr hwyl.

Tro yma, roedd **Brychan** yn mwynhau teimlad y dŵr twym, y swigod, y siampw, a'r teganau dŵr amryliw am y tro cyntaf erioed.

Roedd **Caradog** wedi newid meddwl **Brychan** ynghylch cael bath bob nos.

Clywodd Dad **Brychan** yr holl sŵn yn dod o'r ystafell ymolchi a rhedodd draw at y chwerthin i weld **Brychan** ac anifail bach gyda blew hir **porffor** yn chwarae'n braf yn y bath.



Roedd Dad **Brychan** methu credu ei lygaid. Roedd swigod yn hedfan i bob man. Ond yn fwy na hynny, roedd **Brychan** – o'r diwedd – yn mwynhau ei amser yn y bath!

Y noson honno oedd y glanaf i **Brychan** fod erioed.

O'r noson hynny ymlaen byddai **Brychan** yn edrych ymlaen at amser bath gan wneud yn siŵr bob noson y byddai **Caradog** yn dod i'w ymuno.

Gan Rhiannon Lloyd Williams a Sioned Medi Evans